Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 59** **Gwanwyn 2022**




# 'Gwna i ryfeloedd beidio'

## Croeso 2022?

Gwta dri mis yn ôl yr oeddem yn awchu am gael gweld 2021 yn diflannu o’n calendrau. Cawsom ddigon ar bryder a llond bol ar Cofid, ar y bylchau a adawodd ar ei ôl, a’r ofn a afaelodd yn ein broydd. Roeddem yn edrych ymlaen am gael croesawu Blwyddyn Newydd ynghyd â’r gobaith am gychwyn newydd.

Ond er ‘disgwyl pethau gwych i ddyfod/ croes i hynny maent yn dod’.

O fewn cyfnod o fis ergydiwyd Ynysoedd Prydain gan stormydd Corrie, Eunice, Dudley a Franklin. Ac er i ni obeithio na ddatblygai’r bygythion a’r tensiynau oedd yn cynyddu ar ffiniau Wcráin, synnwyd llawer gan ymosodiad Mr Putin.

Cawsom ein sobri wrth weld bod rhyfel wedi ffrwydro ar dir Ewrop am y tro cyntaf ers yr Ail Ryfel Byd. Cawsom ein tristáu gan luniau dinasoedd a chymunedau a ddifethwyd gan fomio didrugaredd. Cawsom ein syfrdanu wrth weld ffoaduriaid, a chri bleiddiaid Annwn o’u holau, yn heidio i groesi ffiniau eu gwlad er mwyn cyrraedd ‘diogelwch’ gwledydd yr Undeb Ewropeaidd.

Nid oedd balchder y Gorllewin na chrawn hiliaeth ynghudd ymhell o dan yr wyneb. Awgrymodd rhai fod rhyfeloedd a thrais ar gyfandir yr Affrig neu yn y Dwyrain Canol yn rhywbeth i’w ddisgwyl bron, ond bod y Gorllewin rywsut wedi medru codi fel gwareiddiad i raddau uwch, y tu hwnt i’r angen am ryfel i oresgyn anghydfod.

Chwalwyd y myth. Datgelwyd bod DNA trais cyntefig yn llifo drwy ein gwythiennau ninnau yn y Gorllewin hefyd. Dewiswyd gennym gau ein llygaid i drais creulon yn Syria, Afghanistan, Yemen neu Myanmar. Heddiw dysgwyd gennym o’r newydd fod gwaed yr un lliw ym mhob cyflafan. A bod dagrau hallt ffoaduriaid ar bob cyfandir yr un mor chwerw eu blas.

Ni all llywodraethau’r Gorllewin ganu cân colomen wen heddwch heb dagu ar eu rhagrith. Nid ydym uwchlaw defnyddio trais mewn rhyfeloedd tiriogaethol.

Nid yw llywodraeth San Steffan uwchlaw defnyddio propaganda a sbin a chelwyddau noeth i ailysgrifennu eu naratif o ddigwyddiadau. ‘Gaslighting’ yw’r disgrifiad amlaf o’r fath ymddygiad.

Adroddir bod trwch poblogaeth Ynysoedd Prydain bellach yn credu bod yna haen o arweinwyr gwleidyddol breintiedig yn San Steffan sy’n tybio bod cadw at ofynion y gyfraith yn gyfrifoldeb i eraill. Clywir adroddiadau’n ddyddiol bron am achosion o lygredd neu am bobl a brynwyd gan aur cyfoethogion dramor.

Nid oes unrhyw ddyfodol llewyrchus i gymdeithas sy’n dyrchafu hunanoldeb, twyll, rhagrith ac anghyfiawnder ar draul gonestrwydd, cyfiawnder a barn.

Galarodd y proffwyd Eseia dros gyflwr ei genedl yn ei ddydd. Meddai, ‘O genhedlaeth bechadurus, pobl dan faich o ddrygioni, epil drwgweithredwyr, plant anrheithwyr!

‘Y maent wedi gadael yr ARGLWYDD, wedi dirmygu Sanct Israel, a throi cefn. I ba ddiben y trewir chwi mwyach, gan eich bod yn parhau i wrthgilio? Y mae eich pen yn ddoluriau i gyd, a’ch holl galon yn ysig; o’r corun i’r sawdl nid oes un man yn iach, dim ond archoll a chlais a dolur crawnllyd heb eu gwasgu na’u rhwymo na’u hesmwytho ag olew.’

Ond nid condemniad heb obaith oedd ei air: ‘Yn awr, ynteu, ymresymwn â'n gilydd,’ medd yr ARGLWYDD.

‘Pe bai eich pechodau fel ysgarlad, fe fyddant cyn wynned â'r eira; pe baent cyn goched â phorffor, fe ânt fel gwlân. Os bodlonwch i ufuddhau, cewch fwyta o ddaioni’r tir; ond os gwrthodwch, a gwrthryfela, fe’ch ysir â chleddyf.’ Genau’r ARGLWYDD a’i llefarodd.

Wyneba bob sefydliad a phob cenedl, ym mhob cenhedlaeth, ar bob cyfandir, ym mhob oes y dewis difrifol hwn. I’r edifeiriol ceir addewid o faddeuant, ac i’r rhai sy’n dychwelyd cynigir dyfodol ffyniannus.  Ond i sefydliadau, i genhedloedd sydd heb gywilydd, heb edifeirwch, heb ots daw canlyniadau difrifol i ddilyn eu penderfyniad.

Mae llwybr gobaith yn dal i fod ar agor yn 2022.

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 15 Ebrill | *Y Groglith*<br>Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>Y trefniadau i'w cadarnhau |
| 17 Ebrill | *Sul y Pasg*<br>Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn<br>am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog<br>Casgliad tuat at Hadau Gobaith |
| 5 Mehefin | *Sul y Pentecost*<br>Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn<br>am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog<br>Casgliad tuat at Hadau Gobaith |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

# Tudalen y Plant



Ar Sul y Blodau (10 Ebrill eleni), rydyn ni'n cofio am Iesu'n mynd i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn. Roedd pawb yn hapus ac roedd rhai pobl wedi torri dail o'r coed a'u rhoi o flaen Iesu.

*Lliwiwch y llun a llenwi'r bylchau:*

Roedd y bobl yn hapus ac yn gweiddi, '_ _ _ _ _ _ _ _ _'

ac roedd rhai wedi torri dail _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

a'u rhoi ar y ffordd o flaen Iesu.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Watcyn a Lowri James a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain arbennig, sef Mrs Ann James. Roedd yn wraig foneddigaidd a diwylliedig, yn eang ei diddordebau, yn berson annibynnol ei natur a chanddi argyhoeddiadau cadarn. Bu Watcyn a Lowri'n fawr eu gofal ohoni yn ystod y blynyddoedd olaf hyn wedi iddi symud atynt i fyw, a chafodd ofal arbennig hefyd gan staff Cartref Tregerddan.

Yn yr un modd, rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â Wyn a Judith Morris a'r teulu estynedig ym marwolaeth Mrs Margaret Flook, mam Judith, ym Mhontardawe. Cafodd hithau oes faith a bywyd llawn, gan werthfawrogi cefnogaeth a gofal aelodau'r teulu.

Gweddïwn y bydd i chi dderbyn o gysur a chynhaliaeth yr Efengyl yn eich galar a'ch hiraeth.

## Diolch am haelioni

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at apêl Argyfwng Wcráin.



Yn dilyn y casgliad yn oedfa'r ofalaeth ar 6 Mawrth a rhoddion ychwanegol gan gyfeillion, trosglwyddwyd y swm o £683 i gronfa'r apêl.

## Clonc a Phaned (a mwy)

Ar foreau Iau, mae criw bach ohonom wedi bod yn dod at ein gilydd dros Zoom i fwynhau sgwrs a chwmnïaeth, dan arweiniad ein Gweinidog. Mae yna gyfle i gymdeithasu efo'n gilydd am ryw hanner awr neu wrando ar gyflwyniad, ac yna byddwn yn cydarchwilio ein dealltwriaeth o rannau o'r ysgrythur am ryw hanner awr arall.

Mae'r sesiynau wedi bod yn rhai amrywiol iawn – bu aelodau'r grŵp yn cofio athro neu athrawes a ddylanwadodd arnynt ac yn dewis hoff ddarn o gerddoriaeth i wrando arno ar ynys bellennig.

Cafwyd gwerthfawrogiad gan Dilys Jones o gyfraniad Pat Neill, gŵr a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith ar ôl symud i Gymru ac a wnaeth lawer i hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg mewn sawl ffordd. Gan John Jones cawsom hanesion am fywyd cynnar John Roberts (Ieuan Gwyllt), y byddwn yn dathlu daucamlwyddiant ei eni eleni.

Yna, dan arweiniad y Gweinidog, cafwyd cyfle i edrych ar rai adnodau o Lythyr Paul at y Philipiaid, gan berthnasu neges Paul i'n sefyllfa ninnau heddiw. Cofiwyd yn arbennig hefyd, mewn gweddi a myfyrdod tawel, am y sefyllfa yn Wcráin.

Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Gweinidog am baratoi ar ein cyfer a'n cynnull at ein gilydd am orig braf a chartrefol ar fore Iau fel hyn. Bydd y sesiynau'n para hyd at y Pasg, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

# Gweddi dros Wcráin

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, ymostyngwn ger dy fron yn awr. Clyw ein gweddi wrth i ni eiriol ar ran pobl Wcráin, Rwsia a Belarws. Gweddïwn dros gymunedau a ddrylliwyd, dros bobl sy'n ffoi o afael y rhai creulon ddewisodd eu trin fel gelynion. Deisyfwn ar eu rhan, deisyfwn y cânt weld atalfa ar yr ymladd fel y medrant ddychwelyd i'w cartrefi a byw mewn heddwch, nid mewn ofn.

Oen Duw, yr hwn sy'n tynnu ymaith bechodau'r byd,
trugarha wrthym.

Gweddïwn dros arweinwyr y gwledydd wrth iddynt wynebu rhyfel ar dir Ewrop am y tro cyntaf ers yr Ail Ryfel Byd. Bu llawer yn darogan gwae a dioddefaint di-ben-draw wrth i'r trais ymestyn a chynyddu.

Arglwydd, yn dy diriondeb creadigol, a wnei di ysgrifennu hanes gwahanol ar gyfer cenhedloedd y byd, stori wahanol i chwedlau creulon dychymyg arweinwyr byd. Arglwydd, dyro dy heddwch i'r rhai sydd am ddefnyddio grym y cledd. Gweddïwn dros y rhai sydd am fod yn dangnefeddwyr ac yn gymrodeddwyr mewn byd sy'n llawn o rwygiadau. Cadw ni rhag cynlluniau a chynllwynion pobl ddrwg. Dyro i arweinwyr y gwledydd ddoethineb oddi uchod, doethineb dy ras dy hun.

Oen Duw, yr hwn sy'n tynnu ymaith bechodau'r byd,
trugarha wrthym.

Arglwydd, gweddïwn dros dy eglwys yn Wcráin ac yn Rwsia. Rho i arweinwyr dy eglwys yr hyder a'r gallu i dystio'n eofn i'th ras yn Iesu Grist. Ysbryd Glân, caniatâ i'th bobl fod fel dinas wedi ei gosod ar fryn, fel goleuni mewn byd o dywyllwch.

Rhwyma'r dolurus, maetha'r rhai a glwyfwyd, cysura bob un sy'n galaru. A gweddïwn yn arbennig am genhedlaeth o blant a welodd erchyllterau ac a glywodd sgrech arfau a dinistr; gweddïwn dros blant a wahanwyd oddi wrth eu rhieni, dros blant amddifad.

Oen Duw, yr hwn sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,
trugarha wrthym.

Oen Duw, yr hwn sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,
trugarha wrthym a dyro i ni dy heddwch..

Yn ôl dy air (Salm 46), ti yw'r un a 'wna i ryfeloedd beidio'. Gweddïwn, drwy dy ymyrraeth rasol di, y bydd y tensiynau ar ffiniau Ewrop yn toddi, y bydd cymylau bygythiol rhyfel yn cael eu chwythu ymaith. Mewn byd o ryfeloedd a sôn am ryfeloedd, addolwn di, yr hwn wyt yn gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Ynot ti y mae ein gobaith.

Arnat ti yr ydym yn galw. Arglwydd Iesu, clyw ein llef.

Oen Duw, yr hwn sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,
trugarha wrthym. Amen.



## Y Grawys – Arglwydd, Tyrd

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hamheuon
ac yn baglu yn ein hofnau a'n hansicrwydd:

**Arglwydd, tyrd i'n hargyhoeddi.**

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hunigrwydd,
heb neb yn gwmni i ni a neb i rannu'n gofidiau â nhw:

**Arglwydd, tyrd i'n cysuro.**



Pan fyddwn yn niffeithwch ein hanobaith,
ein methiant yn ein llethu a'r dyfodol yn dywyll:

**Arglwydd, tyrd i'n cyfarwyddo.**

Pan fyddwn yn niffeithwch ein tlodi ysbrydol,
wedi colli gafael arnat ti ac yn methu gweddïo:

**Arglwydd, tyrd i'n bendithio.**

Amen.

(O'r gyfrol *Cymer fy munudau*, gan Elfed ap Nefydd Roberts;
gol. Aled Davies a Trefor Lewis; Cyhoeddiadau'r Gair)

## Capel y Garn

## Ebrill

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

| | |
|---|---|
| 3 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o’r gloch |
| 10 | *Sul y Blodau*<br>Oedfa yng Nghapel Noddfa am 10 o’r gloch |
| 15 | *Gwener y Groglith*<br>Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>Y trefniadau i’w cwblhau |
| 17 | *Sul y Pasg*<br>Oedfa’r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch<br>Casgliad tuag at Hadau Gobaith |
| 24 | Oedfa’r Dydd Gweddi’r Byd am 10 o’r gloch |
| 26 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 10 o’r gloch |

**COVID-19**

Er bod y gofynion cyfreithiol wedi eu llacio bellach, nid yw’r haint wedi cilio o’n plith. Felly, gofynnwn am eich cydweithrediad i geisio sicrhau bod ein gweithgareddau’n cael eu cynnal mewn amgylchedd diogel, gan barhau i fod yn ofalus o’n gilydd.

# Capel y Garn

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â nifer o deuluoedd sydd wedi wynebu profedigaeth yn ystod y misoedd diwethaf hyn:

teulu'r diweddar David Evans, y Ruel:

teulu'r ddiweddar Eirlys Evans, Brongenau, gynt;

teulu'r diweddar Gareth Lewis, Bronawel;

teulu'r ddiweddar Elizabeth Davies, Maes Ceiro.

## Llongyfarchiadau calonnog:

i Gwern Penri yn ei swydd newydd gydag Undeb Rygbi Canada:

i Carys Owen (Crudyrawel, gynt), ar ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth Cân i Gymru.

## Anfonwn eich cofion:

at rai o'n haelodau a chyfeillion sy'n derbyn triniaeth neu sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Hyderwn eich bod yn profi cysur yr Arglwydd yn eich cynnal ac y cewch adferiad iechyd buan.

## Rhestr flodau:

Mae rhestr newydd ar gyfer Suliau gweddill y flwyddyn wedi'i gosod yn y cyntedd, ac os hoffech gyfrannu ati, byddem yn ddiolchgar os gallech ychwanegu eich enw ar gyfer y Sul(iau) o'ch dewis. Diolch am bob cyfraniad.

## Rota te:

Rydym yn ddiolchgar i Mrs Nans Morgan a Mrs Mair Jenkins am ymgymryd â threfnu'r rota – rhowch eich enw iddynt os ydych yn barod i gymryd eich tro i baratoi paned yn dilyn yr oedfa, os gwelwch yn dda. Diolch am eich cydweithrediad.

## Capel y Garn

## Mai

### Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

1 Oedfa am 10 o'r gloch
dan ofal Mr Alan Wynne Jones

8 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Wyn Morris

15 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

22 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

29 Oedfa i'w threfnu

## Mehefin

### Blaenor y mis: Vernon Jones

5 *Sul y Pentecost*
Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog
Casgliad tuag at Hadau Gobaith

12 Oedfa yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

19 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

26 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd




Bob pum mlynedd bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru’n cynnal apêl i gefnogi agwedd arbennig ar waith Cymorth Cristnogol. Eleni, bydd pwyslais penodol ar ddod i wybod a dysgu am gyfiawnder hinsawdd, gyda chyfle i weld sut mae unigolion a’u cymunedau’n llwyddo drwy ddyfalbarhad i addasu eu ffordd o fyw er mwyn sicrhau nid yn unig eu bod yn goroesi ond hefyd yn ffynnu.

‘Crud y Ddynoliaeth’ – dyna’r geiriau sydd ar logo rhanbarth Marsabit yng ngogledd Kenya. Mae’n cyfeirio at y ffaith fod nifer o ffosilau bywyd dynol cynnar wedi eu darganfod yno. Mae hanes dynol yn mynd yn ôl filoedd o flynyddoedd yn y gornel hon o gyfandir Affrica – hanes gobaith ac ymdrech, wrth i’r trigolion fynd i’r afael â heriau pob oes. Heddiw, yr argyfwng hinsawdd yw’r her fwyaf yn maent yn ei hwynebu, a’r amgylchedd yn gras a sych. Disgwylir y bydd mwy o sychder yn y dyfodol yn ogystal â mwy o law. Ond gan y bydd hwnnw’n disgyn yn gawodydd trymion iawn ar adegau gwahanol i’r arfer, gall hynny hefyd greu problemau dybryd. Mae gwrthdaro treisgar ar gynnydd rhwng cymunedau sy’n cystadlu am adnoddau dŵr. Lleddir dynion, gan adael gwragedd gweddw i ofalu am eu teuluoedd.

Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio i geisio datrys y sefyllfa, a’n braint a’n cyfrifoleb ni yw cefnogi’r apêl hon a sefyll dros urddas, dros gydraddoldeb a thros gyfiawnder i’r bobl hyn. Bydd cyfle i gyfrannu yn oedfaon yr ofalaeth – yn ogystal ag yn yr eglwysi unigol.

# Cymdeithas Lenyddol y Garn

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i gyfarfod dros Zoom, dan lywyddiaeth Mrs Elizabeth Lloyd Jones, ac mae nifer dda wedi ymuno – o bobl cwr o Gymru, ac ymhellach ambell waith – i fwynhau rhaglen amrywiol o gyfarfodydd.

Nos Wener, 21 Ionawr, cafwyd darlith gan Dr Bleddyn Huws, Tal-y-bont, ar y testun 'William Francis Hughes, Oerddwr, 1879–1966: bardd gwerth ei gofio'. Roedd Oerddwr yn gefnder i T. H. Parry-Williams, ac er iddo yntau, fel ei gefnder, ddadlau ei achos gerbron Tribiwnlys yng Nghaernarfon, bu raid iddo fynd i gwffio i Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Wedi'r rhyfel, treuliodd gyfnod yn yr Unol Daleithiau cyn dod yn ôl i'r Oerddwr i ffermio a gweithio fel saer ac adeiladydd. Cyhoeddwyd detholiad o'i waith yn 1954, dan y teitl *Caniadau William Francis Hughes, William Oerddwr*. Diolchwyd i'r siaradwr am ddarlith ddiddorol ac addysgiadol gan Mr Gareth William Jones.

Yng nghyfarfod mis Chwefror, ein siaradwr gwadd oedd Mr Cynog Dafis, a chafwyd cyflwyniad eithriadol o ddiddorol ganddo am hanes 'Sefydlu Cymdeithas yr Iaith' – a llawer mwy na hynny, mewn gwirionedd. Amlinellodd gefndir y penderfyniad i sefydlu mudiad ar wahân i Blaid Cymru er mwyn gallu gweithredu mewn ffyrdd uniongyrchol i geisio cael gwell statws i'r Gymraeg – a hynny mewn ymateb i her Saunders Lewis yn ei ddarlith enwog 'Tynged yr Iaith' ym mis Chwefror 1962. Cyfeiriodd at nifer o ymgyrchoedd y Gymdeithas dros y blynyddoedd a'r angen i addasu wrth i sefyllfa'r iaith newid. Diolchwyd i Cynog am gyflwyniad meistrolgar gan Mr Eddie Jenkins.

Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio cyfarfod olaf y rhaglen eleni oherwydd salwch – ond edrychwn ymlaen at allu croesawu Gwenan Gibbard atom yn rhaglen y flwyddyn nesaf.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Dydd Gweddi'r Byd**
**yn Seion**



Ar fore Gwener braf a heulog, 4 Mawrth, yn Seion, cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd.
Braf oedd cael dod ynghyd ar ôl bwlch o ddwy flynedd. Thema'r oedfa eleni oedd: 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Llyfr Jeremeia, 29:11). Lluniwyd y gwasanaeth gan chwiorydd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a'r llun ar glawr y daflen o waith Angle Fox yn darlunio'r geiriau allweddol: **rhyddid, cyfiawnder, tangnefedd Duw a maddeuant**.

Yn ystod y gwasanaeth cyneuwyd saith cannwyll — un ar gyfer pob un o saith rhanbarth teulu Dydd Gweddi'r Byd, sef Affrica, Asia, Gogledd America ac Ynysoedd y Caribî, Ewrop, America Ladin, y Dwyrain Canol ac ardal y Môr Tawel.

Rhannwyd y gwaith rhwng aelodau a ffrindiau eglwysi Seion a Rhydyfagwyr, ac er mai chwiorydd oedd yn cymryd rhan, braf oedd cael cefnogaeth brodyr yn yr oedfa. Uwch paned a *Welsh cake* cafwyd cyfle hyfryd i gymdeithasu wedi'r oedfa, ac am nad oedd hi'n ofynnol gwisgo mygydau roedd y sgwrsio yn llifo'n rhwyddach. Diolch am y gefnogaeth eleni eto a'r casgliad dros hanner can punt at fudiadau amrywiol yng Nghymru.

*Ina Tudno Williams*




Bwrdd elfennau'r gwasanaeth – a sgwrs felys wedi'r oedfa



# Taith Ias

Dydd Sadwrn, 5 Mawrth, fel rhan o brosiect Cartref a'r Cynefin, aeth y berfformwraig Eddie Ladd – a fan hufen iâ – o amgylch Ceredigion ar daith unigryw. Pwrpas 'Taith Ias' oedd ymweld â threfi a phentrefi yng Ngheredigion oedd wedi rhoi eu henwau i emyn-donau – ac mae yna 14 ohonyn nhw – a chanu'r dôn honno yn y lleoliad perthnasol. Tybed faint ohonynt allech chi eu henwi?

Pam dewis fan hufen iâ? Wel, roedd Eddie wedi bod yn meddwl am gerbyd fyddai'n teithio o le i le i gyflawni ei swyddogaeth, ac felly roedd fan hufen iâ fel petai'n siwtio i'r dim! Roedd y tonau i gyd wedi'u recordio ymlaen llaw yn null dihafal y fan hufen iâ.

Dechreuodd y daith yn y bore yn Llanbedr Pont Steffan, gyda Chôr Cwm-ann yn canu, cyn teithio drwy Benparc, Blaencefn, Pennant a Cheinewydd. Canwyd 'Llwyncelyn', ym maes parcio'r Spar, fel teyrnged i bobl Iwcráin. Ymlaen wedyn tua'r gogledd i Lanrhystud – nes cyrraedd sgwâr Llanbadarn yn y man.

Roedd hi'n noson loergan, oer, a'r daith yn nesáu at ei therfyn pan ddaeth criw bach ohonom ynghyd ger tai gwydr enfawr Sefydliad Ymchwil Amgylcheddol y Brifysgol yng Ngogerddan. Profiad arbennig oedd ymuno ag Eddie a Jamie Medhurst i gydganu 'Gogerddan', emyn-dôn adnabyddus Joseph Parry, i gyfeiliant y fan hufen iâ. Ond yr hyn oedd yn sobri rhywun oedd pa mor drist o berthnasol ydi geiriau emyn J. T. Job i'r sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd, yn enwedig o feddwl am Wcráin:

Cofia'r byd, O Feddyg da,
  a'i flinderau;
tyrd yn glau, a llwyr iachâ
  ei ddoluriau;
cod y bobloedd ar eu traed
  i'th was'naethu;
ti a'u prynaist drwy dy waed,
  dirion Iesu.



Eddie Ladd a'r fan hufen iâ

Ein dyhead yw y bydd hi'n bosib i ninnau fel pobloedd symud yn fuan o'r cywair lleddf i'r llon, fel a wneir yn yr emyn-dôn, ac y gwelir heddwch yn cael ei orseddu ym mhob cwr o'r ddaear.

Daeth y daith i ben gyda Chôr ABC yn canu un o donau enwocaf Joseph Parry, sef 'Aberystwyth' ar Draeth y De yn Aberystwyth.

Diolch i Eddie Ladd am y syniad gwreiddiol, ac am roi'r cyfle inni ddod at ein gilydd i gydganu a chofio'r emyn-donau cyfarwydd a'u cysylltiadau lleol – ac oedd, roedd yr hufen iâ yn flasus iawn hefyd!

## Profiad y Pasg

Tystia'r Testament Newydd nad atodiad i'r ffydd Gristnogol yw atgyfodiad Iesu; yn hytrach, ei atgyfodiad ef o farw yw craidd a chalon y ffydd: "Os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwithau" (1 Corinthiaid 15: 14). 'No resurrection; no Christianity' (Michael Ramsey).


Ac eto, rhaid cydnabod nad yw credu yn yr atgyfodiad yn hawdd, yn enwedig mewn oes seciwlar a sinigaidd fel sydd heddiw. Y mae'r cyfan yn ymddangos yn afreal ac yn anwyddonol, fel tase'r efengylwyr wedi cynllunio diweddglo hapus i stori bywyd Iesu.

O droi at y Testament Newydd gwelir i ganlynwyr Iesu eu hunain gael trafferth fawr i gredu iddo gyfodi o'i fedd. Fe'u gadewir mewn "penbleth" (Luc 24: 3), a chânt anhawster i'w adnabod. I Mair, y "garddwr" ydyw (Ioan 20: 15); i Cleopas a'i gymar, cyd-deithiwr dieithr ydyw (Luc 22: 15); i'r disgyblion, "ysbryd" ydyw (Luc 24: 37); i'r pysgotwyr ar lan Môr Tiberias, dieithryn ydyw (Ioan 21: 4). Pan yw Mair Magdalen a Joanna a Mair mam Iago yn tystio i'w profiad wrth y bedd gwag, tybia'r un ar ddeg mai "lol oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwragedd" (Luc 24:11).

Ar ba sail, felly, y gallwn ninnau heddiw gredu yn nirgelwch y trydydd dydd? Ofer, bellach, yw dyfalu ynghylch dull yr atgyfodiad. Cofier nad oedd neb yn bresennol pan atgyfodwyd Iesu; nid ei weld **wrth** iddo atgyfodi a wnaed, ond yn unig **wedi** iddo atgyfodi. Ac nid adfywhau ohono'i hun a wnaeth Iesu; yn hytrach "cyfododd Duw ef, gan ei ryddhau o wewyr angau" (Actau 2: 24).

Yr hyn sy'n drawiadol yw'r trawsnewidiad syfrdanol sy'n digwydd yn ymateb y disgyblion. Yn dilyn yr atgyfodiad fe'u gwelir – hwy a fu'n ymguddio'n llwfr y tu ôl i ddrysau clo "oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon" – yn mentro allan yn arwrol i strydoedd Jerwsalem (gan roi eu bywydau mewn perygl) i gyhoeddi bod yr Iesu a groeshoeliwyd yn fyw. Trowyd eu galar yn orfoledd, eu hofn yn hyder, eu dadrithiad yn argyhoeddiad, eu hocheneidiau yn gân.

Prin bod unrhyw eglurhad credadwy arall am y newid radical hwn yn eu hymddygiad – ac am barhad a chynnydd yr eglwys ar hyd y canrifoedd – ond bod ysbryd y Crist byw, a grym ei atgyfodiad, ar waith ymhlith ei bobl.



Y ffordd i Emaus (Mike Torevell)

Sonia David Jenkins (cyn-esgob Durham) am y duedd i feddwl am yr atgyfodiad yn nhermau tragwyddoldeb a'r byd a ddaw, ond, meddai, un o wirioneddau mawr y Pasg yw'r ffaith fod Crist gyda ni yn awr, ynghanol troeon a thrafferthion byd a bywyd. Tystia unigolion fel Simone Weil, C. S. Lewis a'r diwinydd Jurgen Moltmann y trowyd eu hanffyddiaeth yn ffydd fyw wrth i Iesu ei ddatguddio ei hun iddynt mewn ffordd gwbl annisgwyl.

Un o allweddeiriau'r diwinydd Emil Brunner yw "ymgyfarfod" (*encounter*). A yw'n bosibl i ninnau heddiw ymgyfarfod â Christ? A ddaw ef i ymgyfarfod â ni? Fel Cristnogion, mynnwn ateb yn gadarnhaol. Fel y nesaodd gynt at y ddau ar y ffordd i Emaus, "a dechrau cerdded gyda hwy", daw atom ninnau hefyd a'n gwahodd i'w ganlyn. Dyma hanfod profiad y Pasg.

*Parch Ddr Desmond Davies*
(O wefan Cristnogaeth21)

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth, Tre-Taliesin, brynhawn Mawrth, 14 Rhagfyr, pan groesawyd Sara ac Eirlys Jenkins, Fferm Cerrig Caranau, a ddaeth i sôn am y fenter newydd o'r enw Llaeth Teulu Jenkins a gychwynnwyd ganddynt ym mis Ionawr 2021. I ddechrau, cawsom ganddynt ychydig o hanes y teulu, gan sôn sut ddaeth y teulu Jenkins i Gerrig Caranau yn y lle cyntaf yn ôl yn 1875, a dangoswyd rhai hen luniau o'r teulu a'r fferm. Cychwynnwyd y fenter newydd gan y teulu i werthu llaeth lleol, organig, i bobl yr ardal, a phan agorodd y Cwtsh Llaeth yn yr Hen Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth, hon oedd y fenter gyntaf o'i math yn y dre. Erbyn hyn, rydym yn gyfarwydd â gweld y peiriannau gwerthu llaeth yn Aberystwyth a Machynlleth, ac mae modd prynu llaeth ffres, organig ac ysgytlaeth o'r peiriannau hunanwasanaeth yma sydd ar agor bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Er mai menter weddol newydd yw hon, maent eisoes wedi ennill sawl gwobr, ac wrth ddiolch i Eirlys a Sara am brynhawn difyr iawn dymunodd Eiriona bob llwyddiant iddynt a'u llongyfarch am fentro. I gloi, mwynhawyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona a Carys.

Gwyn Jenkins, Tal-y-bont, oedd y siaradwr gwadd yn y cyfarfod ar 8 Chwefror. Testun ei sgwrs oedd '*Papur Pawb* a phapurau bro eraill'. Wrth sôn am *Bapur Pawb*, dywedodd mai Gwilym Huws a Robat Gruffudd oedd yr arloeswyr a gafodd y weledigaeth o gychwyn papur bro yn yr ardal yn 1974. *Papur Pawb* oedd papur bro cyntaf Cymru, ac ymhen amser dechreuodd ardaloedd eraill gyhoeddi papurau bro eu hunain, ac erbyn hyn cyhoeddir dros drigain ohonynt dros Gymru gyfan. Eglurodd Gwyn gymaint y mae pethau wedi newid wrth argraffu'r papur ers y cychwyn cyntaf. Proses lafurus a gymerai lawer o amser oedd gosod y papur yn y dyddiau cynnar, ond erbyn hyn mae pethau'n haws gan fod y deunydd a'r lluniau oddi wrth y gohebwyr yn cael eu trosglwyddo dros y we i'r golygydd a'r dylunydd.

Mae'n debyg mai O. M. Edwards gafodd yr ysbrydoliaeth i gyhoeddi papur bro yn y lle cyntaf, gan iddo gyhoeddi *Seren y Mynydd* yn ardal Penllyn yn 1895. Hefyd, cyhoeddwyd *Lloffion Llangynfelyn* ym mhlwyf Llangynfelyn gan Mr Huw Evans rhwng 1956 a 1958 – a'r ddau bapur yna'n cynnwys yr un math o ddeunydd a newyddion ag a ymddengys yn *Papur Pawb* yn awr. Er mai bywyd gweddol fyr a gafodd y ddau bapur yna, mae *Papur Pawb* wedi bodoli ers 47 o flynyddoedd, a gobeithir y bydd y genhedlaeth iau yn parhau â'r gwaith pwysig mae'n ei gyflawni i'r gymuned leol.

Croesawyd Cynog Dafis, Llandre, i'r cyfarfod ar 8 Mawrth. Testun ei sgwrs oedd 'Sefydlu Cymdeithas yr Iaith' a chawsom ganddo hanes dechrau'r Gymdeithas yn 1962 yn dilyn darlith 'Tynged yr Iaith' gan Saunders Lewis, a ddarlledwyd ar y radio adeg Gŵyl Dewi y flwyddyn honno. Yn y ddarlith roedd Saunders Lewis yn poeni'n fawr am ddyfodol yr iaith, a dywedodd mai 'trwy ddulliau chwyldro yn unig y bydd achub yr iaith'.

Yn Ysgol Haf Plaid Cymru cyn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontarddulais yn haf 1962 sylweddolwyd na fyddai modd i aelodau Plaid Cymru ymgymryd ag ymgyrch tor-cyfraith. Felly, penderfynwyd sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg gyda'r bwriad o gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i dorri'r gyfraith er mwyn tynnu sylw at y ffaith nad oedd dim swyddogol yn bodoli yn y Gymraeg. Cynhaliodd yr aelodau y brotest gyntaf dros yr iaith ar bont Trefechan, Aberystwyth, ym mis Chwefror 1963. O hynny ymlaen bu nifer fawr o ymgyrchoedd ganddynt a sicrhaodd fod y Gymraeg yn dod yn iaith weladwy a defnyddiol yn ein bywyd bob dydd ac a sicrhaodd hefyd ddyfodol mwy llewyrchus iddi.

Diolchwyd yn gynnes i Cynog am rannu profiadau ac ymgyrchoedd aelodau Cymdeithas yr Iaith dros y blynyddoedd, ac sydd erbyn hyn wedi bodoli am bron i drigain mlynedd.

*Carys Briddon*




## Gŵyl Llanw 2022

Cynhelir yr ŵyl eleni yng Nghanolfan Medrus, Aberystwyth, ar 18–19 Ebrill. Gŵyl Gristnogol yw Llanw gyda'r pwyslais ar ddathlu'r atgyfodiad.

Bydd oedfa deulu, addoliad cyfoes, pregethau a sesiynau i'r plant a'r ieuenctid. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw, ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon.

Ymhlith y siaradwyr eleni y mae Cynan Llwyd, Stuart Bell a Jonathan Thomas, a bydd oedfa deulu dan arweiniad Martyn a Meilir Geraint.

Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfodydd.

Ewch i wefan Llanw (llanw.org/llanw-22) i gael mwy o fanylion

**Swyddogion yr Ofalaeth**
Cadeirydd: Ina Tudno Williams, Capel Seion
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **12 Mehefin** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com